

WJEC AS/A2 Film Studies Level 3



Yn gwyno

Mae'r cwrs hwn yn cynnwys amrywiaeth eang o astudiaethau ffilm i'ch galluogi chi i benderfynu ble mae eich angerdd.

Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Ydych eisiau mynd ymlaen i addysg uwch yn y pwnc
- ... Ydych eisiau gweithio yn y diwydiant ffilm
- ... Ydych am gwrs astudio ymarferol a damcaniaethol

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol i chi os ydych am fynd ymlaen i addysg uwch, gweithio yn y diwydiant ffilm neu os oes gennych ddiddordeb yn y pwnc. Mae'r cwrs hwn yn cynnwys astudio nodweddion:

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Ffilmiau (yn cynnwys setiau, celfi, gwisgoedd, colur, gwaith camera, goleuo, golygu, sain, perfformio)

Naratif, genre a chynrychioli

Gwahanol lwyfannau gwyllo ac ymatebion cynulleidfaoedd i ffilmiau

Diwydiannau ffilm Hollywood a Phrydeinig

Sinema'r byd

Astudiaeth feirniadol ar ffilmiau

Mae'r cwrs Lefel UG yn cynnwys un cynhyrchiad ymarferol, gan eich caniatáu chi i greu sgript, bwrdd stori â ffotograffau, neu ffilm fer.

Mae'r cwrs Lefel U yn dilyn patrwm tebyg, gan eich caniatáu chi i greu cynhyrchiad ymarferol arall (sgript ffilm ar gyfer ffilm ffuglen, sgript ar gyfer rhaglen ddogfen neu ffilm fer) sy'n gysylltiedig â phrosiect ymchwil.

Cewch eich asesu drwy arholiad ysgrifenedig yn y ddwy flynedd, ac unwaith y byddwch wedi cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddwch yn ennill cymwysterau mewn:

Astudiaethau Ffilm Lefel UG

Astudiaethau Ffilm Lefel U

Gweithgareddau sgiliau

[Saesneg a Mathemateg](#)

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd tuag at y cwrs a'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaol ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Er mwyn cael mynediad ar y cwrs, mae angen ichi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Mathemateg, Cymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg.

Gallwch fynd ymlaen i addysg uwch (cyrsiau Uwch Ddiploma Cenedlaethol neu BA) mewn



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

pwnc ffilm, y cyfryngau neu gyfathrebu. Mae rhai cyrsiau gradd yn rhoi mwy o bwyslais ar gynhyrchiad creadigol a bod ynghlwm â chelf a dylunio neu'r celfyddydau perfformio, yn ogystal ag adrannau'r cyfryngau, ffilm a chyfathrebiadau. Mae cyrsiau eraill yn pwysleisio sgiliau beirniadol. Yn aml mae cyrsiau gradd yn cynnig cyfuniad o elfennau a dulliau gweithredu creadigol a beirniadol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen i chi dalu ffi stiwdio o £15.00.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

